

## Sul Addysg

### Darlleniad: Diarhebion 3: 5-7, 13-20

---

---

O! Dduw, ein Tad, plygwn yn ostyngedig ac yn wylaidd ger dy fron. Deuwn atat ti yn ein gwendid a'n diffyg a gofynnwn i ti wrando arnom ac ymateb i ni. Gwnawn hynny'n hyderus ac yn obeithiol wrth inni gofio am dy raslonrwydd a'th gariad rhyfeddol tuag atom, y cariad a welwyd yn y modd y bu i ti ddod i'n plith yn dy Fab Iesu Grist, yn faddeuant ac yn heddwch i ni. Deuwn atat felly yn ei enw a'i haeddiant ef gan wybod y byddi di'n gwrando arnom ac yn ymateb i ni.

Daethost yn oleuni i ni.

Yr oeddem wedi crwydro mor bell oddi wrthyt, a thywyllwch yn cau amdanom fel nad oeddem yn medru gweld dy wyneb mwyach. Ond daethost 'er mwyn i'r rhai nad ydynt yn gweld gael gweld'; daethost yn 'oleuni i'r byd'. Trwy dy Ysbryd Glân, cynorthwya ni i gredu ac ymddiried . . . a gweld.

Bydd yn oleuni eto.

Rhoddaist reswm i ni, a thrwy'n rheswm rydym yn darganfod ac yn dysgu. A ninnau heddiw yn cyfarfod ar Sul Addysg gofynnwn am dy fendith ar yr holl waith sy'n digwydd ym myd gwybodaeth a dysg.

Diolchwn i ti am athrawon ymroddedig sy'n cyflwyno gwybodaeth i ni gan ein cynorthwyo i bwyso a mesur y wybodaeth honno a'i chymhwyso i'n dealltwriaeth o'r byd a'i bethau.

Diolchwn i ti hefyd am ysgolheigion mewn meysydd eang ac amrywiol iawn sydd, trwy ymchwil ac arbrawf, yn dod â gwybodaeth a dirnadaeth newydd i ni.

Ond gwna'r cyfan yn gyfrwng inni fedru rhyfeddu o'r newydd wrth syllu ar y cread yn ei ehangder a'i drefn gan gofio mai dyma waith dy ddwylo di, a bod y cyfan yn dwyn tystiolaeth i'th fawredd a'th rym - 'Pan edrychaf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer a'r sêr, a roddaist yn eu lle . . . ' Yr wyt ti'n Dduw teilwng o bob clod a mawl, a gofynnwn am dy gymorth fel bod pob gwybodaeth yn tanlinellu hynny.

A rho i ni ddoethineb a thosturi fel ein bod yn medru defnyddio'n gwybodaeth yn adeiladol a buddiol, gan fod o wasanaeth i bobl yn eu hamgylchiadau a'u hanghenion amrywiol. Diolch i ti am bob defnydd o'r fath, ond maddau inni hefyd pan fyddwn yn troi'n dysg i gyfeiriad negyddol a difaol gan borthi'r drwg a'r creulon sydd ynom a dwyn rhagor o boen a dioddefaint yn ei sgil.

Gofynnwn hyn i gyd yn enw ac yn haeddiant ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

*Trefor Jones Morris*